

MADDAU I WRAIG BECHADURUS.

Emyn: 797 ‘O’r fath newid rhyfeddol a wnaed’.

Darlleniad: Luc 7:36-50.

Neges:

A. GWRAIG DDIOLCHGAR.

Mae’n adeg diolchgarwch ond beth sydd gennym i ddiolch amdano’r flwyddyn hon gyda’r feirws yn creu’r fath ofid? Gwelir sefyllfa gydag Iesu, Pharisead a gwraig bechadurus.

i) **Pharisead:** Simon oedd ei enw a gwahoddodd Iesu i bryd o fwyd yn ei dŷ. **Ond beth oedd ei fwriad?** A ydoedd yn ceisio profi Iesu i weld os ydoedd ‘yn broffwyd mawr’? **Pa dystiolaeth sydd o fwriad amheus Simon?** a) Ni wnaeth gynnig dŵr i lanhau traed Iesu – arferiad cyffredin. b) Dim croeso cynnes iddo. c) Dim olew i iro ei ben (44-46).

ii) **Iesu:** Er iddo wybod am fwriad amheus Simon, pam aeth Iesu i’w dŷ am fwyd? Derbyniodd Iesu lletygarwch gan bawb oherwydd roedd am gyrraedd pobl o bob dosbarth a chefnidir mewn cymdeithas.

iii) **Gwraig bechadurus:** Ni wyddom enw’r wraig. ‘A dyma wraig o’r dref oedd yn bechadures yn dod i wybod ei fod wrth bryd bwyd yn nhŷ Pharisead. Daeth a ffiol alabaster

o ennaint. ... gan wyllo, dechreuodd wlychu ei draed â’i dagrau a’u sychu â gwallt ei phen,’ 38. Roedd trefn bwyd yn wahanol yn y Dwyrain adeg Iesu. Buasai pobl yn rhyw hanner gorwedd wrth fwrdd isel i fwyta ac roedd gwleddoedd yn ddigwyddiad cyhoeddus, gyda phobl nad oedd wedi derbyn gwahoddiad yn dod i’r tŷ. Yn eu plith roedd y wraig bechadurus yma. Buasai pobl wedi ei gweld yn syth a’i dirmygu.

Nid ymdrech i ddwyn sylw at ei hun oedd golchi a sychu traed yr Iesu ond arwydd i ddangos ei diolchgarwch a’i chariad tuag at Iesu. Nid ydoedd yr un person ag yr oedd yn y gorffennol. Roedd Iesu wedi rhoi bywyd newydd iddi. ‘A dyma’r wraig ... yn sefyll y tu ôl i Iesu ac yn wyllo,’ 38. Nid dagrau ffug oedd y rhain ond dagrau galar am y drwg yn ei bywyd. Fe ddaeth â’r ennaint i ddiolch i Iesu am ei maddau o’i holl ddrwg. Cymaint oedd ei chariad a’i diolch i Iesu. Ond nid felly oedd Simon yn gweld y sefyllfa!

B. DAMEG AM DDAU DDYLEDWR.

Mae ‘na ddau ddyn mewn dyled i fenthycwr arian. Nid ydynt yn medru talu’r ddyled yn ôl. Dyled un yn 500 darn o arian a’r llall 50 darn arian. Mae’r benthycwr yn diddymu dyled y ddau. Dyma Iesu yn gofyn i Simon, “Prun ohonynt, gan hynny, fydd yn ei garu fwyaf?” Ateb Simon

oedd, “*Fe dybiwn i mai’r un y diddymwyd y ddyled fwyaf iddo,*” 42. Mae wedi ateb yn gywir ond heb ddeall gwers Iesu! Mae’n dangos diffyg dealltwriaeth a diffyg diolchgarwch. Mae wedi cam ddeall:

i) **Y Wraig:** Mae’n gweld hen ffordd o fyw’r wraig, ond nid ei chalon newydd a’r newid mae Iesu wedi dwyn iddi.

ii) **Iesu:** Mae’n gweld methiant Iesu i geryddu’r wraig. Nid ydyw yn deall bod Iesu wedi dyfod ‘i achub y colledig’ i faddau pobl o bob cefndir eu drwg.

iii) **Ei hun:** Mae’n barod i farnu’r wraig ond yn methu gweld ei angen ei hun. Nid ydyw’n gweld ei hun yn bechadur mewn angen o faddeuant Iesu, fel pawb arall. Roedd pechodau’r wraig yn allanol ac yn amlwg i bawb. Roedd pechodau Simon yn fwy dirgel – balchder, hunan gyfiawnder a beirniadaeth o eraill. Yr un oedd angen y ddau sef maddeuant Crist.

Edrych i fywyd ei hun a wnaeth Simon, a does dim arwyddion iddo wir ddiolch i Dduw am y bendithion bob dydd na’r bendithion ysbrydol, sef yr Ysgrythurau, a oedd wedi ei dderbyn.

Mae’n ddyddiau anodd ond a wnawn ddiolch i Dduw am ei fendithion bob dydd, yn fwyd a dillad, yn iechyd a chynhaliaeth, ffrindiau a theulu?

A wnawn ddiolch am fendithion ysbrydol Duw? Mae gyda ni Waredwr llawn gras a chariad yn Iesu, sy’n barod i roi ail-gyfle i ni mewn bywyd. Meddai Iesu wrth y wraig, “*Y mae dy ffydd wedi dy achub; dos mewn tangnefedd,*” 50. Diolch am ffydd (rhodd Duw) i gredu yn Iesu, diolch am Ei iachawdwriaeth, diolch am y tangnefedd wna gynnig. Diolch hefyd am yr efengyl, sydd yn medru newid bywydau pobl, fel y wraig yn yr hanes.

Beth wnawn ni â’r Iesu hwn? A oes diolch yn ein calon?

Gweddi: O Dduw Dad, a hithau’n dymor diolchgarwch, er y pandemig sydd o’n cwmpas, diolch bod gyda ni bethau i ddiolch amdano. Diolch am fendithion pob dydd, ein bwyd a’n cartrefi. Diolch am ffrindiau a theulu, am gyd-aelodau sydd wedi bod yn gysur i ni mewn misoedd o galedi. Diolch am Iesu, Gwaredwr ac Arglwydd bendigedig. Nid yw’n delio â ni yn ôl ein haeddiant ond yn barod i faddau ein drwg ac i roi bywyd newydd i ni, bywyd o gariad a thangnefedd. Yn Ei enw, Amen.

A SINFUL WOMAN FORGIVEN.

Hymn: 906 'What a friend we have in Jesus.'

Reading: Luke 7:36-50.

Message:

A. A THANKFUL WOMAN.

It's thanksgiving time, but what do we have to be thankful for at a time when the pandemic is causing such concern?

Jesus was invited to eat with a Pharisee. i) **The Pharisee:** His name was Simon. **What was his objective?** Was he looking for evidence as to whether Jesus was 'a great prophet' (16) or not? **What evidence is there of Simon's questionable motives?** a) He did not provide Jesus with water to wash his feet – a common custom. b) He did not greet Jesus warmly. c) He did not anoint his head with oil, (44-46). ii) **Jesus:** Jesus knew of Simon's intent in inviting him, so **why did he attend?** Jesus' desire is to '*reach all classes and conditions of men,*' W.M. Taylor. He came to seek/save the lost. iii) **A sinful woman:** We do not know her name. When the woman heard that Jesus was eating at the Pharisee's house, she went there. Eastern tradition would see people recline at low tables. Feasts were public

occasions; uninvited people would enter the house and listen in.

The sinful woman came as an uninvited guest. People recognised her and frowned at her presence. However, she had come with an alabaster jar of ointment with the purpose of showing her love and thanks for what Jesus had done in her life. She was not the same person after meeting with Jesus and receiving His saving grace.

'Standing behind him at his feet, weeping, she began to wet his feet with her tears and wiped them with the hair of her head,' 38. This was not an embarrassing display of attention seeking, but a sign of deep sorrow for her sin and thankfulness for Jesus' forgiveness of her sins.

B. THE PARABLE OF THE TWO DEBTORS.

Simon did not see the woman's actions for what they were. Jesus told him a parable of two men who were in debt, one owing 500 denarii and another 50. Both were unable to repay their debt, so the moneylender cancelled both debts. Jesus asked the question, "*Now which of them will love him more?*" 42. Simon answered correctly, the one with the largest debt. Though he knew the answer to Jesus' question he did not understand the lesson of the parable! Simon expressed a lack of

understanding and a lack of thanksgiving. He had misunderstood:

a) **The sinful woman:** All he saw was her past life and not the change that Jesus had brought to her life.

b) **Jesus:** He was disappointed that Jesus had not rebuked the woman, thus showing that he was no great prophet.

c) **Himself:** He failed to see his need of Jesus and the forgiveness of his sins. Though his sins were not as public as the woman, he, like every person was a sinner! He believed his life to be alright, even pleasing to God. Yet he showed no thanks for the daily blessing he received nor the spiritual blessings of God (the Scriptures). No thanks to Jesus, for his message nor his offer of forgiveness.

These are difficult days, but **are we thankful for the daily blessings of God?** Food, clothes, health, friends and family. **Are we thankful for His spiritual blessings?** Jesus as Saviour, faith to believe in Him and the joy and peace that He offers. Are we thankful for the power of the gospel that changes lives, like the sinful woman, and changes people's lives today?

What will we do with Jesus? Do we have thankful hearts?

Prayer:

Our Heavenly Father, it is thanksgiving time, and despite the pandemic that rages around us, we do have things to give thanks for. Thank you for our daily and seasonal blessings, the food that nourishes us and the homes that shelter us from the weather. We give thanks for friends and family, and fellow church members, who have been of comfort to us during the pandemic.

We give thanks for Jesus, our Lord and Saviour. He does not deal with us according to our sins but is prepared to forgive us our many sins and offer us new life if we trust in Him. Continue to guide us and protect us in Jesus' name, Amen.